



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 891(Cy.42)

2001 No. 891(W.42)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg
(Grantiau Safonau Addysg)
(Cymru) 2001

The Education (Education
Standards Grants) (Wales)
Regulations 2001

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Adran 484 o Ddeddf Addysg 1996 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau sydd yn darparu ar gyfer talu grantiau ynglŷn â gwariant a dynnwyd gan awdurdodau addysg lleol at ddibenion addysgol, neu mewn cysylltiad â hwy, os ymddengys i'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid annog gwariant o'r fath er lles addysg yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu'r fath grantiau. Maent yn ailddeddfu, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2000. Amlinellir darpariaethau'r Rheoliadau, a'r newidiadau i'r Rheoliadau cynt, isod.

Section 484 of the Education Act 1996 enables the National Assembly for Wales to make regulations providing for the payment of grants in respect of expenditure incurred by local education authorities for or in connection with educational purposes which it appears to the National Assembly those authorities should be encouraged to incur in the interests of education in Wales. These Regulations provide for the payment of such grants. They re-enact, with some changes, the Education (Education Standards Grants) (Wales) Regulations 2000. The provisions of the Regulations, and the changes from the earlier Regulations, are outlined below.

Mae Rheoliad 1 yn darparu ar gyfer enwi, cychwyn a chymwyso. Daw'r rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2001 ac maent yn gymwys i Gymru'n unig.

Regulation 1: provides for citation, commencement and application. The regulations come into force on 1st April 2001 and apply only in relation to Wales.

Mae Rheoliad 2 yn cynnwys diffiniadau.

Regulation 2: contains definitions.

Mae Rheoliad 3 yn darparu nad yw grantiau'n daladwy ond ar gyfer gwariant a dynnwyd gan awdurdod addysg lleol at y dibenion, neu mewn cysylltiad â'r dibenion, a nodir yn yr Atodlen yn ystod blwyddyn ariannol, a dim ond i'r graddau y cymeradwywyd y gwariant am y flwyddyn honno gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliadau.

Regulation 3: provides for grants to be payable only in respect of expenditure incurred by a local education authority for or in connection with the purposes specified in the Schedule in a financial year, and only to the extent that the expenditure is approved for that year by the National Assembly for the purposes of the Regulations.

Mae Rheoliad 4 yn darparu ar gyfer talu grantiau ynglŷn â gwariant gan awdurdodau addysg lleol i dalu trydydd partïon am wariant ganddynt os byddai'r gwariant hwnnw'n gymwys ar gyfer grant petai'n wariant gan yr awdurdod.

Regulation 4: provides for payment of grants in respect of expenditure incurred by local education authorities in making payments to third parties in respect of expenditure incurred by those third parties which would be eligible for grant if it were expenditure of the authority.

Mae Rheoliad 5 yn darparu ar gyfer cyfradd y grantiau sy'n daladwy.

Mae Rheoliadau 6 i 8 yn nodi'r amodau sy'n gymwys ar gyfer talu grantiau, gan gynnwys gofynion archwilio. Mae'r dyddiad yn rheoliad 6(5) ar gyfer cyflwyno datganiad a thystysgrif archwilydd i'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei newid o 31 Gorffennaf i 31 Hydref.

Mae Rheoliad 9 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol fynnu i awdurdod addysg lleol roi gwybodaeth iddo.

Mae Rheoliad 10 yn caniatáu i'r Cynulliad osod gofynion ychwanegol.

Mae Rheoliad 11 yn caniatáu i'r Cynulliad fynnu i awdurdod addysg lleol ddirprwyo penderfyniadau ar wario i gyrrff llywodraethu ysgolion.

Mae Rheoliad 12 yn diddymu'r Rheoliadau blaenorol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol.

Mae'r Atodlen yn darparu ar gyfer dibenion y mae grantiau'n daladwy atynt, neu'n gysylltiedig â hwy. Mae trefn y paragraffau yn yr Atodlen wedi'i newid. Mae'r newidiadau o sylwedd i'r Atodlen fel a ganlyn:

- mae'r ddarpariaeth a oedd yn ymwneud â gweithredu a gweinyddu cynlluniau i gyllido ysgolion a gynhelir wedi'i dileu (paragraff 1(a) yn y Rheoliadau blaenorol);
- newid i baragraff 1(h) (paragraff 18 yn y Rheoliadau blaenorol) yn ymwneud ag addysg bersonol a chymdeithasol;
- paragraff newydd 3(b) yn ymwneud ag adolygiad o'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar gyfer plant o dan bum mlwydd oed;
- newid i baragraff 5(e) (paragraff 15 yn y Rheoliadau blaenorol) sy'n ymestyn hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant i holl staff ysgol ac i staff cynnal awdurdod addysg lleol; a
- paragraff newydd 5(f) yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Regulation 5: provides for the rate at which grants are payable.

Regulations 6 to 8: set out the conditions which apply in respect of the payment of grants, including audit requirements. The date in regulation 6(5) for submitting a statement and auditor's certificate to the National Assembly has been changed from 31 July to 31 October.

Regulation 9: allows the National Assembly to require a local education authority to supply it with information.

Regulation 10: allows the Assembly to impose additional requirements.

Regulation 11: allows the Assembly to require local education authorities to delegate spending decisions to school governing bodies.

Regulation 12: revokes earlier Regulations subject to transitional provisions.

Schedule: provides for the purposes for or in connection with which grants may be paid. The arrangement of the paragraphs in the Schedule has been altered. The substantial changes to the Schedule are as follows:

- the removal of the provision relating to the implementation and administration of schemes for financing maintained schools (paragraph 1(a) in the earlier Regulations);
- an amendment to paragraph 1(h) (paragraph 18 in the earlier Regulations) relating to personal and social education;
- a new paragraph 3(b) relating to a review of existing educational provision for children aged under five;
- an amendment to paragraph 5(e) (paragraph 15 in the earlier Regulations) extending training in child protection matters to cover all school staff and local education authority support staff; and
- a new paragraph 5(f) relating to children looked after by a local education authority.

2001 Rhif 891(Cy.42)**2001 No. 891(W.42)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg
(Grantiau Safonau Addysg)
(Cymru) 2001****The Education (Education
Standards Grants) (Wales)
Regulations 2001***Wedi'u gwneud**8 Mawrth 2001**Made**8th March 2001**Yn dod i rym**1 Ebrill 2001**Coming into force**1st April 2001*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 484, 489 a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(a) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

In exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 484, 489 and 569(4) of the Education Act 1996(a) and now vested in the National Assembly for Wales(b), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Education (Education Standards Grants) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st April 2001.

(2) These Regulations apply in relation to local education authorities in Wales.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

mae "aelod o'r Arolygiaeth" ("*member of the Inspectorate*") yn gyfystyr â "member of the Inspectorate" yn adran 46(1) o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996(c);

mae "anghenion addysgol arbennig" ("*special educational needs*") yn gyfystyr â "special educational needs" yn adran 312(1) o Ddeddf 1996;

ystyr "arolygydd cofrestredig" ("*registered inspector*") yw person sydd wedi'i gofrestru yn arolygydd yn unol ag adran 7(1) a (2) o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996;

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996;

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998(c);

"annual review meeting" ("*cyfarfod adolygu blynyddol*") means a meeting to review a statement of special educational needs such as is referred to in regulations 15(5), 16(3) and 17(3) of the Education (Special Educational Needs) Regulations 1994(d);

"approved expenditure" ("*gwariant a gymeradwywyd*") means any expenditure which is approved as provided

(a) 1996 p.56; diwygiwyd adrannau 484 a 489 gan adran adran 7(10) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraffau 125 a 126 o Atodlen 30 iddi. I gael ystyr "regulations" gweler adran 579(1).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) 1996 p.57.

(a) 1996 c.56; sections 484 and 489 have been amended by section 7(10) of, and paragraphs 125 and 126 of Schedule 30 to, the School Standards and Framework Act 1998. For the meaning of regulations see section 579(1).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1998 c.31.

(d) S.I. 1994/1047.

ystyr “athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig” (“*registered teacher*”) yw person y rhoddwyd awdurdodiad iddo neu iddi yn unol â Rhan III o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(a);

ystyr “athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig” (“*qualified teacher*”) yw person sydd, yn rhinwedd y rheoliadau(b) ynglŷn â chyflogi athrawon sydd mewn grym o bryd i’w gilydd o dan adran 218 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(c) â chymhwyster i gael ei gyflogi fel athro neu athrawes mewn ysgol o’r math a ddisgrifir yn is-adran (12) o’r adran honno;

ystyr “awdurdod addysg” (“*education authority*”) yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw cyfnod o ddeuddeng mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr “cyfarfod adolygu blynyddol” (“*annual review meeting*”) yw cyfarfod i adolygu datganiad o anghenion addysgol arbennig fel y cyfeirir ato yn rheoliadau 15(5), 16(3) a 17(3) o Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 1994(ch) ;

ystyr “cyfleusterau amser hamdden” (“*leisure- time facilities*”) yw cyfleusterau o fath y mae awdurdodau addysg dan ddyletswydd i sicrhau eu bod yn cael eu darparu o fewn i’w hardaloedd a ‘r ddyletswydd honno wedi’i gosod gan adrannau 2(3)(b) a 508(1) o Ddeddf 1996;

ystyr “cyfnodau allweddol 1, 2, 3 a 4” (“*key stages 1, 2, 3 and 4*”) yw’r cyfnodau a bennir ym mharagraffau (a), (b), (c) a (d), yn y drefn honno, o adran 355(1) o Ddeddf 1996;

mae “cynllun asesu sylfaenol” (“*baseline assessment scheme*”) yn gyfystyr â “baseline assessment scheme” yn adran 15 o Ddeddf Addysg 1997(d);

ystyr “cynllun datblygu ysgol” (“*school development plan*”) yw cynllun a baratowyd gan gorff llywodraethu’r ysgol dan sylw ac sy’n nodi cyrchnodau’r ysgol a’r camau sy’n angenrheidiol dros y blynyddoedd nesaf i alluogi’r ysgol i symud tuag at gyflawni’r cyrchnodau hynny;

(a) O.S. 1999/2817 (Cy.18).

(b) Adeg gwneud y Rheoliadau hyn, y rheoliadau mewn grym oedd, ar gyfer Cymru, Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/2817 (Cy.18)), ac ar gyfer Lloegr, Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Lloegr) 1999 (O.S. 1999/2166).

(c) Diwygiwyd adran 218 (i’r graddau y mae’n berthnasol i’r Rheoliadau hyn) gan baragraff 49 o Atodlen 8 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13); gan adran 14(1) a (3) o Ddeddf Addysg 1994 a pharagraff 8(4) o Atodlen 2 iddi; gan baragraff 76 o Atodlen 37 i Ddeddf Addysg 1996; gan adran 49(1)-(4) o Ddeddf Addysg 1997; a chan baragraff 17 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; a chan adrannau 10, 11, ac 13 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30).

(ch) O.S. 1994/1047.

(d) 1997 p.44. Diwygiwyd adran 15 gan baragraff 209 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

in regulation 3;

“baseline assessment scheme” (“*cynllun asesu sylfaenol*”) has the meaning given to it in section 15 of the Education Act 1997(a);

“classroom assistant” (“*cynorthwydd ystafell ddosbarth*”) means an employee of an education authority or of the governing body of a school who is normally present in a classroom with a teacher and who assists the teacher;

“determine” (“*penderfynu*”) means determine by notice in writing;

“education authority” (“*awdurdod addysg*”) means a local education authority in Wales;

“education strategic plan” (“*cynllun strategol addysg*”) means an education development plan prepared by an education authority in accordance with section 6 of the 1998 Act;

“financial year” (“*blwyddyn ariannol*”) means a period of twelve months ending with 31st March;

“grant” (“*grant*”) means a grant in pursuance of these Regulations;

“key stages 1, 2, 3 and 4” (“*cyfnodau allweddol 1, 2, 3, a 4*”) means the periods specified in paragraphs (a), (b), (c) and (d) respectively of section 355(1) of the 1996 Act;

“leisure-time facilities” (“*cyfleusterau amser hamdden*”) means the facilities of a kind which education authorities are under the duty imposed by sections 2(3)(b) and 508(1) of the 1996 Act to secure are provided within their areas;

“mainstream school” (“*ysgol brif-ffrwd*”) means a maintained school other than a special school;

“maintained school” (“*ysgol a gynhelir*”) means a school maintained by an education authority;

“member of the Inspectorate” (“*aelod o’r Arolygiaeth*”) has the meaning given to it in section 46(1) of the School Inspections Act 1996(b);

“mentor” (“*mentor*”) means an experienced head

(a) 1997 c.44. Section 15 has been amended by paragraph 209 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

(b) 1996 c.57.

ystyr “cynllun strategol addysg” (“*education strategic plan*”) yw cynllun datblygu addysg a baratowyd gan awdurdod addysg yn unol ag adran 6 o Ddeddf 1998;

ystyr “cynorthwydd anghenion arbennig” (“*special needs assistant*”) yw person sy’n cael ei gyflogi gan awdurdod addysg neu gorff llywodraethu ysgol sydd fel arfer yn bresennol mewn ystafell ddosbarth gydag athro neu athrawes ac sy’n cynorthwyo’r athro neu’r athrawes mewn perthynas â phlant ac iddynt anghenion addysgol arbennig;

ystyr “cynorthwydd ystafell ddosbarth” (“*classroom assistant*”) yw person sy’n cael ei gyflogi gan awdurdod addysg neu gan gorff llywodraethu ysgol ac sydd fel arfer yn bresennol mewn ystafell ddosbarth gydag athro neu athrawes ac sy’n cynorthwyo’r athro neu athrawes;

ystyr “y Cynulliad Cenedlaethol” (“*the National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996;

ystyr “Deddf 1998” (“*the 1998 Act*”) yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(a) ;

mae “disgybl” (“*pupil*”) yn gyfystyr â “pupil” yn adran 3 o Ddeddf 1996;

ystyr “grant” (“*grant*”) yw grant yn unol â’r Rheoliadau hyn;

ystyr “y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu” (“*National Grid for Learning*”) yw’r system o rwydweithiau cydgyssylltiol a gwasanaethau addysg sy’n seiliedig ar y rhyngwyd ac sydd wedi’i gynllunio i gefnogi addysgu, dysgu, hyfforddi a gweinyddu mewn ysgolion, y gwasanaeth addysg ehangach, a’r gymuned;

ystyr “gwariant a gymeradwywyd” (“*approved expenditure*”) yw unrhyw wariant a gymeradwywyd yn ôl darpariaeth rheoliad 3;

ystyr “gwariant a ragnodwyd” (“*prescribed expenditure*”) yw gwariant gan awdurdod addysg ar gyfer unrhyw bwrpas neu mewn cysylltiad ag unrhyw bwrpas a bennir yn yr Atodlen;

teacher giving advice and assistance to support the professional development of an inexperienced head teacher;

“named person” (“*person a enwyd*”) means a person whom the education authority are satisfied is able (having regard to any criteria set out in the Code of Practice issued under section 313 of the 1996 Act(a)) to provide accurate information and sound advice to a parent about his or her child’s special educational needs, and is agreeable to being named as a person from whom the parent may seek such information and advice when the education authority serves a copy of the child’s statement of special educational needs on the parent pursuant to paragraph 6 of Schedule 27 to the 1996 Act;

“the National Assembly” (“*y Cynulliad Cenedlaethol*”) means the National Assembly for Wales;

“National Grid for Learning” (“*Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu*”) means the system of inter-connecting networks and education services based on the internet which is designed to support teaching, learning, training and administration in schools, the wider education service, and the community;

“prescribed expenditure” (“*gwariant a ragnodwyd*”) means expenditure by an education authority for or in connection with any of the purposes specified in the Schedule;

“pupil” (“*disgybl*”) has the meaning given to it in section 3 of the 1996 Act;

“qualified teacher” (“*athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig*”) means a person who, by virtue of the regulations(b) relating to the employment of teachers from time to time in force under section 218 of the Education Reform Act 1988(c), is qualified to be employed as a teacher at a school of the kind described in subsection (12) of that section;

“registered inspector” (“*arolygydd cofrestredig*”) means a person who is registered as an inspector in accordance with section 7(1) and (2) of the School Inspections Act 1996;

“registered teacher” (“*athro cofrestredig neu*

(a) 1998 p.31.

(a) Section 313 is amended by paragraph 72 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

(b) At the time of making these Regulations, the regulations currently in force, for Wales, were the Education (Teachers’ Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/ 2817 (W.18)), and for England, the Education (Teachers’ Qualifications and Health Standards) (England) Regulations 1999 (S.I. 1999/2166).

(c) Section 218 was (so far as relevant to these Regulations) amended by paragraph 49 of Schedule 8 to the Further and Higher Education Act 1992 (c.13); by section 14(1) and (3) of and paragraph 8(4) of Schedule 2 to, the Education Act 1994; by paragraph 76 of Schedule 37 to the Education Act 1996; by section 49(1)-(4) of the Education Act 1997; and by paragraph 17 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998; and sections 10, 11 and 13 of the Teaching and Higher Education Act 1998 (c.30).

ystyr “gweithiwr ieuencid a chymuned neu weithwraig ieuencid a chymuned” (“*youth and community worker*”) yw person sy’n cael ei gyflogi mewn cysylltiad â chyfleusterau amser hamdden, heblaw i wneud gwaith gweinyddol, ysgrifenyddol, clerigol neu gorfforol yn unig;

ystyr “mentor” (“*mentor*”) yw pennaeth profiadol sy’n rhoi cyngor a chymorth i gefnogi datblygiad proffesiynol pennaeth dibrofiad;

ystyr “penderfynu” (“*determine*”) yw penderfynu drwy hysbysiad ysgrifenedig;

ystyr “person a enwyd” (“*named person*”) yw person y mae’r awdurdod addysg yn fodlon ei fod yn gallu (gyda golwg ar unrhyw feini prawf a nodir yn y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996(a)) darparu gwybodaeth gywir a chyngor doeth i riant am anghenion addysgol arbennig ei blentyn, ac sy’n cytuno i gael ei enwi’n berson y caiff y rhiant geisio’r wybodaeth a’r cyngor hwnnw ganddo pan fydd yr awdurdod addysg yn cyflwyno copi o ddatganiad o anghenion addysgol arbennig y plentyn i’r rhiant yn unol â pharagraff 6 o Atodlen 27 i Ddeddf 1996;

mae “person ifanc” (“*young person*”) yn gyfystyr â “young person” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

mae “safle ysgol” (“*school site*”) yn gyfystyr â “school site” ym mharagraff 2(11) o Atodlen 3 i Ddeddf 1998;

ystyr “ysgol a gynhelir” (“*maintained school*”) yw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg;

ystyr “ysgol brif-ffrwd” (“*mainstream school*”) yw ysgol a gynhelir nad yw’n ysgol arbennig;

ystyr “ysgol haf ar lythrennedd” (“*summer literacy school*”) yw cynllun sy’n diwydd yn ystod gwyliau’r haf ac sydd wedi’i anelu at godi safonau llythrennedd disgyblion sydd ar fin ymuno ag ysgol uwchradd;

ystyr “ysgol haf ar rifedd” (“*summer numeracy school*”) yw cynllun sy’n digwydd yn ystod gwyliau’r haf ac sydd wedi’i anelu at godi safonau rhifedd disgyblion sydd ar fin ymuno ag ysgol uwchradd;

mae “ysgol arbennig” (“*special school*”) yn gyfystyr â “special school” yn adran 337(1) o Ddeddf 1996(b).

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at reoliad a gynhwysir ynddynt, mae cyfeiriad mewn rheoliad at baragraff yn gyfeiriad at baragraff yn y rheoliad hwnnw, ac mae cyfeiriad at yr Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn.

“*athrawes gofrestredig*”) means a person to whom an authorisation has been granted in accordance with Part III of Schedule 2 to the Education (Teachers’ Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999;

“school development plan” (“*cynllun datblygu ysgol*”) means a plan prepared by the governing body of the school in question setting out the goals of the school and the action necessary over the next few years to enable the school to move towards achieving those goals;

“school site” (“*safle ysgol*”) has the meaning given to it in paragraph 2(11) of Schedule 3 to the 1998 Act;

“special educational needs” (“*anghenion addysgol arbennig*”) has the meaning given to it in section 312(1) of the 1996 Act;

“special needs assistant” (“*cynorthwydd anghenion arbennig*”) means an employee of an education authority or of the governing body of a school who is normally present in a classroom with a teacher and who assists the teacher in relation to children with special educational needs;

“special school” (“*ysgol arbennig*”) has the meaning given to it in section 337(1) of the 1996 Act(a) ;

“summer literacy school” (“*ysgol haf ar lythrennedd*”) means a scheme taking place during the summer holidays which aims to raise standards of literacy in pupils who are about to join secondary school;

“summer numeracy school” (“*ysgol haf ar rifedd*”) means a scheme taking place during the summer holidays which aims to raise standards of numeracy in pupils who are about to join secondary school;

“young person” (“*person ifanc*”) has the meaning given to it in section 579(1) of the 1996 Act;

“youth and community worker” (“*gweithiwr ieuencid a chymuned neu weithwraig ieuencid a chymuned*”) means a person employed in connection with leisure-time facilities, other than in a solely administrative, secretarial, clerical or manual capacity.

(2) In these Regulations a reference to a regulation is a reference to a regulation contained herein, a reference in a regulation to a paragraph is a reference to a paragraph of that regulation, and a reference to the Schedule is a reference to the Schedule to these Regulations.

(a) Diwygiwyd adran 313 gan baragraff 72 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(b) Diwygiwyd adran 337(1) gan baragraff 80 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988.

(a) Section 337(1) is amended by paragraph 80 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

Gwariant y mae grantiau yn daladwy ar ei gyfer

3. Ni fydd grantiau ond yn daladwy ar gyfer gwariant a ragnodwyd ac a dynnwyd neu a dynnir yn ystod blwyddyn ariannol ac ond i'r graddau y cymeradwywyd y gwariant hwnnw am y flwyddyn honno gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Grantiau ar gyfer taliadau i drydydd partïon

4. Os -

- (a) bydd awdurdod addysg yn gwario wrth wneud taliadau, boed er mwyn cynnal, cynorthwyo neu wneud rhywbeth arall, i unrhyw gorff arall neu bersonau eraill (gan gynnwys awdurdod addysg arall) sy'n gwario at ddibenion addysgol neu mewn cysylltiad â hwy, a
- (b) byddai gwariant y sawl sy'n derbyn y taliadau neu unrhyw ran ohonynt yn wariant a ragnodwyd petai'n wariant yr awdurdod,

rhaid i'r taliadau hynny, i'r graddau hynny, gael eu trin yn wariant a ragnodwyd at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Cyfradd y Grantiau

5. Rhaid talu grantiau ar gyfer gwariant a gymeradwywyd ar 1 Ebrill 2001 neu ar ôl hynny a'r rheiny o'r math y cyfeirir atynt yn y paragraffau o'r Atodlen a restrir yn y golofn ar y chwith i'r tabl isod yn ôl cyfradd ganrannol y gwariant a bennir mewn perthynas ag ef yn y golofn ar y dde i'r tabl.

TABL

Paragraff yr Atodlen	Cyfradd ganrannol y grant
12	100
9(c)	100
3(b)	100
5(c)	70
Pob paragraff arall	60

Amodau talu grantiau

6.-(1) Ni thelir grant onid yw'n ymateb i gais ysgrifenedig oddi wrth awdurdod addysg i'r Cynulliad Cenedlaethol, wedi'i ddilysu gan swyddog o'r awdurdod sy'n gyfrifol am weinyddu eu cyllid neu ei ddirprwy.

(2) Rhaid i geisiadau am dalu grant ymwneud â gwariant dros un neu ragor o'r cyfnodau a bennir ym

Expenditure in respect of which grants are payable

3. Grants shall be payable only in respect of prescribed expenditure incurred or to be incurred in a financial year and only to the extent to which that expenditure is approved for that year by the National Assembly for the purposes of these Regulations.

Grants in respect of payments to third parties

4. Where -

- (a) an education authority incurs expenditure in making payments, whether by way of maintenance, assistance or otherwise, to any other body or persons (including another education authority) who incur expenditure for or in connection with educational purposes, and
- (b) that expenditure of the recipient of the payments or any part thereof would be prescribed expenditure if it were expenditure of the authority,

such payments shall to that extent be treated as prescribed expenditure for the purposes of these Regulations.

Rate of Grant

5. Grants in respect of approved expenditure incurred on or after 1st April 2001 of the kind referred to in the paragraphs of the Schedule listed in the left hand column of the table below shall be payable at the percentage rate of such expenditure specified in relation thereto in the right hand column of the table.

TABLE

Paragraph of Schedule	Percentage rate of grant
12	100
9(c)	100
3(b)	100
5(c)	70
All other paragraphs	60

Conditions for payment of grant

6.-(1) No payment of grant shall be made except in response to an application in writing from an education authority to the National Assembly, authenticated by the officer of the authority responsible for the administration of their financial affairs or that person's deputy.

(2) Applications for the payment of grant shall relate to expenditure over one or more of the periods

mharagraff (3) a rhaid iddynt bennu'r gwariant a gymeradwywyd ac y gwneir cais am grant ar ei gyfer ac y tynnwyd neu yr amcangyfrifwyd y bydd yn cael ei dynnu gan yr awdurdod addysg yn ystod pob un o'r cyfnodau hynny.

(3) Y cyfnodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw-

- (a) o 1 Ebrill hyd at 31 Gorffennaf;
- (b) o 1 Awst hyd at 31 Rhagfyr;
- (c) o 1 Ionawr hyd at 31 Mawrth.

(4) Os cyflwynir cais sy'n ymwneud â gwariant a gymeradwywyd ac y tynnwyd neu yr amcangyfrifwyd iddo gael ei dynnu yn ystod y cyfnod sy'n ymestyn o 1 Ionawr hyd at 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn o dan baragraff (1), ceir gwneud yn ddi-oed unrhyw daliad y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu arno nad yw'n fwy na thri chwarter o'r grant y gwnaed cais amdano mewn perthynas â'r gwariant hwnnw, ac eithrio pan fydd yn penderfynu fel arall, ond ni thelir grant pellach ar gyfer y gwariant hwnnw hyd nes cyflwyno datganiad yn unol â pharagraff (5)(a).

(5) Rhaid i bob awdurdod addysg a dderbyniodd grant neu sy'n ceisio cael taliad grant ar gyfer gwariant a dynnwyd yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol, cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad hwnnw-

- (a) gyflwyno datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n rhaid i'r datganiad hwnnw bennu'r gwariant a gymeradwywyd ac y mae cais wedi'i wneud neu'n cael ei wneud am grant ar ei gyfer, sef gwariant a dynnwyd gan yr awdurdod addysg yn ystod y flwyddyn honno; a
- (b) sicrhau cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol dystysgrif wedi'i llofnodi gan archwilydd a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio i Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr i archwilio cyfrifon yr awdurdod neu unrhyw archwilydd sydd â chymhwyster i gael ei benodi yn rhinwedd adrannau 3(5), (6) a (7) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1988(a) ac sy'n ardstyio bod y manylion a roddwyd yn y datganiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod yn unol â'r paragraff hwn, ym marn yr archwilydd, wedi'u datgan yn deg a bod y gwariant a dynnwyd wedi'i gymeradwyo at ddibenion adran 484 o Ddeddf 1996(b).

(6) Ni thelir grant mewn perthynas â gwariant a dynnwyd gan awdurdod addysg yn ystod y cyfnod 1 Awst hyd at 31 Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn neu unrhyw gyfnod ar ôl hynny os talwyd grant i'r awdurdod mewn perthynas â gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ond nad yw'r Cynulliad

specified in paragraph (3) and shall specify the approved expenditure in respect of which grant is applied for which has been or which it is estimated will be incurred by the education authority during each such period.

(3) The periods referred to in paragraph (2) are -

- (a) 1st April to 31st July;
- (b) 1st August to 31st December;
- (c) 1st January to 31st March.

(4) Where an application relating to approved expenditure which has been or which it is estimated will be incurred during the period 1st January to 31st March in any year is submitted under paragraph (1), such payment as the National Assembly may determine, but not exceeding, save where it determines otherwise, three-quarters of the grant applied for in respect of that expenditure may be made forthwith, but no further payment of grant shall be made in respect of that expenditure until a statement has been submitted in accordance with paragraph (5)(a).

(5) Each education authority which has received or seeks to receive a payment of grant in respect of expenditure incurred during any financial year shall, before 31 October in the following financial year or as soon as practicable after that date -

- (a) submit to the National Assembly a statement which shall specify the approved expenditure in respect of which grant has been or is being applied for which has been incurred by the education authority during that year; and
- (b) secure the submission to the National Assembly of a certificate signed by the auditor appointed by the Audit Commission for Local Authorities and the National Health Service in England and Wales to audit the accounts of the authority or any auditor qualified for such appointment by virtue of sections 3(5), (6) and (7) of the Audit Commission Act 1998(a) certifying that in his or her opinion the particulars stated in the statement submitted by the authority pursuant to this paragraph are fairly stated and that the expenditure incurred was approved for the purposes of section 484 of the 1996 Act(b).

(6) No payment of grant shall be made in respect of expenditure incurred by an education authority in the period 1st August to 31st December in any year or any subsequent period if grant was paid to the authority in respect of expenditure in the previous financial year but the National Assembly has not yet received the

(a) 1988 p.18.

(b) Diwygiwyd adran 484 gan adran 7(10) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraff 125 o Atodlen 30 iddi.

(a) 1998 c.18.

(b) Section 484 was amended by section 7(10) of and paragraph 125 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

Cenedlaethol eto wedi derbyn tystysgrif yr archwilydd y cyfeirir ati ym mharagraff (5)(b) am y flwyddyn honno.

(7) Rhaid i unrhyw dandaliad neu ordaliad o grant sy'n dal heb ei dalu ar ôl derbyn tystysgrif yr archwilydd y cyfeirir ati ym mharagraff (5)(b), heb ragfarnu camau i adennill unrhyw ordaliad o unrhyw daliad dilynol o grant i'r awdurdod addysg, gael ei addasu â thaliad rhwng yr awdurdod a'r Cynulliad Cenedlaethol.

7. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol, ar adeg cymeradwyo gwariant at ddibenion y Rheoliadau hyn, yn mynnu gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ddiben a restrir yn yr Atodlen, bydd talu'r grant at y diben hwnnw yn amodol ar gynnwys yr wybodaeth honno yng nghais yr awdurdod addysg i gael taliad y grant.

8.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol o bryd i'w gilydd benderfynu ar amodau pellach y bydd talu yn unol â'r Rheoliadau hyn yn ddibynnol ar eu cyflawni.

(2) Os penderfynwyd ar amodau yn unol â'r rheoliad hwn ni cheir talu grant oni fydd yr amodau hynny wedi'u cyflawni neu wedi'u tynnu'n ôl yn unol â pharagraff (3).

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu tynnu'n ôl neu, wedi ymgynghori â'r awdurdod addysg, amrywio'r amodau y penderfynwyd arnynt yn unol â'r rheoliad hwn.

Gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy

9. Rhaid i unrhyw awdurdod addysg y talwyd grant iddo, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei fynnu, roi iddo unrhyw wybodaeth bellach y bydd yn ei mynnu i'w alluogi i wirio bod unrhyw grant a dalwyd wedi cael ei dalu'n briodol o dan y Rheoliadau hyn.

10. Rhaid i unrhyw awdurdod addysg y talwyd grant iddo gydymffurfio ag unrhyw ofynion (gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud ag ad-dalu'r grant neu dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol unrhyw symiau sy'n perthyn i werth asedau a gaffaelwyd, a ddarparwyd neu a wellhawyd drwy gymorth grant neu log ar symiau sy'n ddyledus iddo) y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu arnynt yn yr achos dan sylw.

11.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu bod yn rhaid i unrhyw awdurdod addysg ddirprwyo penderfyniadau ynghylch gwario-

- (a) grant, a
- (b) symiau a ddyrennir gan yr awdurdod i gwrdd â gwariant a ragnodwyd ac a gymeradwywyd yn unol â rheoliad 3,

i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

auditor's certificate referred to in paragraph (5)(b) for that year.

